Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Cyllid y Prosiect Peilot Microgymwysterau Prentisiaeth: Canllawiau i Ddeiliaid Contract Prentisiaeth (ACH)

**01 Hydref 2025**

**Medr/2025/29: Atodiad A**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen ganllaw hon yn amlinellu'r broses ar gyfer sicrhau a rheoli cyllid a ddyrennir trwy'r Prosiect Peilot Microgymwysterau Prentisiaeth (sy'n werth £272,559.47).

Mae'r ffrwd gyllido hon a dargedir wedi cael ei neilltuo i brofi dull newydd a ddylai fod o gymorth i wneud y Rhaglen Brentisiaethau'n fwy hyblyg ac mae'n ymateb i adborth a gafwyd gan randdeiliaid.

Bydd y prosiect peilot yn cynnig cyfle i Ddeiliaid Contract Prentisiaeth (neu ddarparwyr yr is-gontractiwyd iddynt) ddarparu cyrsiau neu gymwysterau byrion (fel microgymwysterau) ochr yn ochr â fframwaith prentisiaethau presennol. Bydd hyn yn helpu prentis i ennill sgiliau a chyflawni dysgu ychwanegol i'w cynorthwyo i gamu ymlaen yn eu gyrfa.

Bydd y prosiect peilot yn canolbwyntio ar gymwyseddau allweddol sy'n gysylltiedig ag agenda Sero Net Cymru ar draws y sectorau Prentisiaethau canlynol:

- Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch
- Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladau
- Ynni

Bydd y prosiect hwn hefyd yn darparu cuddwybodaeth ddefnyddiol a fydd yn goleuo'r Rhaglen Brentisiaethau newydd sy'n cael ei chyflwyno yn 2027.

## Cefndir a chyd-destyn

1. Mae Cynllun Strategol Medr yn disgrifio nod i 'greu system addysg drydyddol hyblyg a chydgysylltiedig lle gall pawb gaffael y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt ar gyfer economi a chymdeithas sy'n newid'. Trwy'r Cynllun, rydym wedi ymrwymo i ddylunio darpariaeth brentisiaethau yn y dyfodol i ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran sgiliau ac i ddiwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r economi.

2. Mae prentisiaethau'n ysgogydd allweddol ar gyfer llywio cynhyrchiant a helpu i dyfu gweithlu medrus ac amrywiol. Mae'r economi a thechnolegau newydd yn tyfu'n gyflym yng Nghymru ac mae arnom angen rhaglen brentisiaethau sy'n ystwyth ac yn ymatebol i ddiwallu'r anghenion newidiol hyn yn effeithiol a sicrhau bod y cymwysterau a'r sgiliau cywir yn cael eu darparu. I brofi dull i ddiwallu'r anghenion hyn, mae Medr wedi sefydlu prosiect peilot newydd i ddarparu cyrsiau a chymwysterau byrion ochr yn ochr â fframwaith prentisiaethau presennol, a fydd yn goleuo datblygiad y rhaglen brentisiaethau newydd yn 2027.

## Cyflwyniad

3. Mae'r ddogfen ganllaw hon yn nodi'r gofynion ar gyfer cyflawni'r Prosiect Peilot Microgymwysterau Prentisiaeth. Mae'n darparu trosolwg o ofynion y prosiect, gan gynnwys amodau cymhwystra a mynediad dysgwyr; ac yn manylu ar y gofynion cyflwyno data a monitro er mwyn i Medr allu monitro'r modd y'i cyflawnir a'i ddeilliannau dysgu.

4. Bydd y prosiect peilot yn rhedeg ochr yn ochr â'r rhaglen brentisiaethau ar gyfer 2025-26 a bydd yn agored i ddeiliaid contract a gomisiynwyd (a'u his-gontractwyr). Rhaid i'r Deiliaid Contract Prentisiaeth sicrhau bod darpariaeth yn ymlynu wrth ofynion cytundebol a nodwyd yn flaenorol a bydd angen i unrhyw gyrsiau a gyllidir trwy'r cynllun peilot gael eu darparu erbyn 31 Mawrth 2026.

## Diben y prosiect peilot

5. Mae angen sicrhau bod y Rhaglen Brentisiaethau'n dod yn fwy hyblyg ac yn darparu'r sgiliau a chymwysterau cywir i alluogi prentisiaid i ymgymryd â'u dewis yrfa a chamu ymlaen ynddi. Yn y cyd-destun hwn, mae Medr wedi sefydlu prosiect peilot sy'n cynnig cyrsiau a chymwysterau byrion fel microgymwysterau a fydd yn canolbwyntio ar gymwyseddau galwedigaethol allweddol sy'n gysylltiedig ag agenda Sero Net Cymru.

6. Bydd y prosiect yn galluogi prentisiaid i gryfhau eu cymhwysedd galwedigaethol a gwella eu taith ddysgu ymhellach.

7. Mae cyllideb o £272,559.47 wedi cael ei neilltuo i'r prosiect peilot ar gyfer 2025/26 sy'n ychwanegol at ddyraniadau cyllid craidd prentisiaethau. Trwy'r prosiect peilot, bydd prentisiaid yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth cyrsiau o'r rhestr gymeradwy o gymwysterau a chyrsiau (yn **Atodiad 1**) sy'n ategu dilyniant yn eu galwedigaeth/sector. Ni fydd Medr yn cyllido cyrsiau y tu allan i'r rhestr gymeradwy. Bydd prentis yn gallu cael mynediad at fwy nag un cwrs os yn briodol neu'n berthnasol i'w dewis alwedigaeth cyn belled â'u bod yn peidio â mynd y tu hwnt i'r cap o £1,500. Eto, bydd angen i unrhyw gyrsiau a gyllidir trwy'r prosiect peilot gael eu darparu erbyn 31 Mawrth 2026.

## Cymhwystra a gofynion mynediad

8. Bydd y prosiect peilot yn darparu microgymwysterau ar draws y sectorau Prentisiaethau canlynol:
   - Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch
   - Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladau
   - Ynni

9. I fod yn gymwys i gyfranogi yn y prosiect peilot, rhaid i fuddiolwyr unigol ateb y gofynion cymhwystra a nodir ym Manyleb y Rhaglen Brentisiaethau, a hefyd:
   - Bod yn dilyn prentisiaeth sylfaen, prentisiaeth neu brentisiaeth uwch yn unrhyw un o'r sectorau a nodir yn y paragraff o dan 4.1
   - Bod yn gyflogedig gyda chytundeb dysgu prentisiaeth presennol.

10. Rhaid i'r Deiliad Contract Prentisiaeth (neu ddarparwr yr is-gontractiwyd iddo) ymlynu wrth y gofynion mynediad a nodir gan y priod gorff dyfarnu ar gyfer unrhyw gwrs a gynigir trwy'r prosiect peilot, gan gynnwys mewn perthynas â chyfyngiadau oedran neu ragofynion.

## Cyflawni'r prosiect peilot

11. Bydd y prosiect peilot yn cael ei gyflawni trwy'r Deiliad Contract Prentisiaeth. Gall y Deiliad Contract Prentisiaeth is-gontractio'r ddarpariaeth i ddarparwyr hyfforddiant sydd mewn sefyllfa dda trwy eu trefniadau lleol presennol.

12. Ceir y rhestr o gyrsiau y gellir eu cyllido yn Atodiad 1. Dim ond cyrsiau a chymwysterau sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr gymeradwy fydd yn cael eu cyllido gan Medr.

13. Rhagwelir y bydd y rhestr o gyrsiau byrion y gellir eu cyllido (Atodiad 1) yn esblygu ac, felly, na fydd yn ddigyfnewid. Mae hyn yn adlewyrchu cyflymder y trawsnewid fel rhan o agenda Sero Net Cymru.

14. Bydd Medr yn ystyried ceisiadau i gynnwys cyrsiau ychwanegol a gyflwynir gan y Deiliad Contract Prentisiaeth neu'r diwydiant. Bydd Medr yn datblygu ac yn cyhoeddi templed ar gyfer cyrsiau/cymwysterau newydd a bydd yn ymgynghori â rhanddeiliaid fel rhan o broses gymeradwyo 'llai manwl'. Rhaid i bob cais gynnwys tystiolaeth o'r galw economaidd ac o blith cyflogwyr cyn y bydd cyrsiau'n cael eu hystyried a'u cymeradwyo.

15. Rhaid dilyn y broses ganlynol pan geir unrhyw gynigion ar gyfer cyrsiau newydd:
    - CAM 1: Cais gan y Deiliad Contract Prentisiaeth neu'r diwydiant
    - CAM 2: Asesiad gan Medr sy'n cynnwys Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a Chyrff y Sector
    - CAM 3: Gwerthusiad gan Medr
    - CAM 4: Cymeradwyo a chytuno ar gostau'r cwrs.

## Gofynion cyflwyno data

16. Bydd Medr yn defnyddio data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) i fonitro'r modd y cyflawnir y Prosiect Peilot Microgymwysterau Prentisiaeth a'i ddeilliannau dysgu. Mae Llawlyfr Cymorth Defnyddwyr Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn nodi'r canllawiau y dylai sefydliadau eu dilyn wrth gyflwyno data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru.

17. Yn unol â'r amodau mewn contractau prentisiaeth presennol, rhaid i'r Deiliad Contract Prentisiaeth sicrhau bod data'n cael ei gyflwyno yn y fformat cywir ac mewn modd amserol.

## Monitro ac archwilio

18. Bydd monitro ac archwilio'n cyflawni rôl o ran sicrhau bod y canllawiau'n cael eu cymhwyso'n gyson ac i helpu i asesu a yw polisïau, gweithdrefnau a rheolaethau'n ddigonol.

19. Bydd y dull o fonitro'n canolbwyntio ar y meysydd canlynol:
    - Cydymffurfio â'r rhaglen brentisiaethau a'r ddogfen ganllaw ategol.
    - Deilliannau dysgu ar gyfer y prosiect peilot.

20. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy fonitro diwedd blwyddyn; ymarfer paru data; a phrofion archwilio manwl ar ddysgwyr ar y prosiect peilot.

21. Bydd Medr yn defnyddio'r data a gyflwynir trwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru i fonitro'r modd y cydymffurfir trwy'r prosiect peilot. Bydd hyn yn cynnwys:
    - monitro cofrestriadau dysgwyr yn erbyn data cynllunio
    - monitro setiau data'r rhaglen a gweithgareddau i sicrhau bod gofynion cyflawni'n cael eu hateb.

22. Mae dilyniant a chyrchfannau dysgwyr yn fesur perfformiad allweddol ar gyfer y prosiect ac yn hollbwysig i werthuso llwyddiant. Disgwylir y bydd prentisiaid sy'n cwblhau cyrsiau ychwanegol yn llwyddiannus mewn sefyllfa well i gamu ymlaen yn eu gyrfaoedd.

23. Yn ogystal â'r dull o fonitro a nodir uchod, bydd data a ddychwelir gan y Deiliad Contract Prentisiaeth yn ddarostyngedig i ofynion archwilio diwedd blwyddyn presennol.

## Gwerthuso

24. Mae Medr yn rhagweld y bydd yn cynnal gwerthusiad o'r prosiect peilot a bydd y canfyddiadau'n goleuo'r Rhaglen Brentisiaethau newydd sy'n cael ei chyflwyno o 2027.

## Manylion cyswllt

25. Ar gyfer unrhyw ymholiadau ynghylch y Prosiect Peilot Microgymwysterau Prentisiaeth, cysylltwch â [prentisiaethau@medr.cymru](mailto:prentisiaethau@medr.cymru).

## Atodiad 1:

**Rhestr o gyrsiau Microgymwysterau (gyda gwerth cyllido 2025/26)**

| Cwrs | Gwerthoedd 2025/26 |
|---|---|
| ABBE - Dyfarniad Lefel 3 mewn Effeithlonrwydd Ynni ar gyfer Adeiladau Hŷn a Thraddodiadol | £855.03 |
| ABBE - Dyfarniad Lefel 3 mewn Cyflwyniad i Ôl-osod Domestig | £238.44 |
| ABBE - Tystysgrif Lefel 3 ar gyfer Aseswyr Ôl-osod | £1,430.64 |
| AIM - Dyfarniad L2 Deall Ôl-osod Domestig | £715.32 |
| BPEC - Pwmp Gwres o'r Aer Domestig | £953.76 |
| BPEC - Pwmp Gwres o'r Ddaear Domestig | £953.76 |
| BPEC - Systemau Storio Dŵr Poeth Domestig (Heb Dyllau Aer) | £476.88 |
| BPEC - Systemau Awyru Domestig | £715.32 |
| BPEC – Dyfarniad Lefel 3 mewn Systemau Pwmp Gwres (Cylchedau Heb Oerydd) | £953.76 |
| BPEC – Systemau Gwresogi Dŵr Poeth Tymheredd Isel | £715.32 |
| BPEC - Rhan L (Effeithlonrwydd Ynni) | £476.88 |
| BPEC - Systemau Casglu Dŵr Glaw ac Ailgylchu Dŵr Llwyd | £715.32 |
| BPEC - Systemau Dŵr Poeth Thermol Solar Mapio NOS | £953.76 |
| BPEC Rheoliadau / Is-ddeddfau Dŵr | £476.88 |
| CAA - Tystysgrif Cymhwysedd A2 a Gymeradwyir gan yr Awdurdod Hedfan Sifil (A2 CofC) | £238.44 |
| CAA - Tystysgrif Llinell Weledol (VLOS) Gyffredinol (GVC) a Gymeradwyir gan yr Awdurdod Hedfan Sifil | £715.32 |
| Cert-ain - Effeithlonrwydd Ynni (Rhan L) | £476.88 |
| Cert-ain - Systemau Dŵr Poeth â Thyllau Aer a Heb Dyllau Aer | £476.88 |
| Cert-ain - Rheoliadau Dŵr | £476.88 |
| City & Guilds – Dyfarniad Lefel 3 yn y Gofynion ar gyfer Gosodiadau Trydanol BS 7671:2018 (2382-22) (18fed Rhifyn) | £953.76 |
| City & Guilds – Dyfarniad Lefel 2 mewn Weldio Arc Metel â Llaw (MMA) (3268-02) | £1,192.20 |
| City & Guilds – Dyfarniad Lefel 2 mewn Weldio Metel gyda Nwy Anadweithiol (MIG) (3268-02) | £1,192.20 |
| City & Guilds – Dyfarniad Lefel 2 mewn Weldio Ocsi-Asetylen (3268-02) | £1,192.20 |
| City & Guilds - Dyfarniad Lefel 2 mewn Weldio Tungsten gyda Nwy Anadweithiol (TIG) - Alwminiwm (3268-02) | £1,192.20 |
| City & Guilds – Dyfarniad Lefel 2 mewn Weldio Tungsten gyda Nwy Anadweithiol (3268-02) | £1,192.20 |
| EAL – Dyfarniad Lefel 3 mewn Gwirio ac Ardystio Gosodiadau Trydan Newydd | £953.76 |
| EAL – Dyfarniad Lefel 3 mewn Arolygu a Phrofi Offer Trydanol sydd mewn Defnydd (PAT) | £715.32 |
| EAL - Dyfarniad Lefel 3 yn y Gofynion ar gyfer Gosodiadau Trydan BS 7671:2018 | £953.76 |

| **Cwrs** | **Gwerthoedd 2025/26** |
|---|---|
| ECITB - Trorym a Thensiwn Cysylltiadau Bolltiog Tyrbinau Gwynt (TS WT02-MJI33) | £715.32 |
| ERS - Effeithlonrwydd Ynni Gwresogi Domestig (EEDH) | £476.88 |
| ERS - Systemau Storio Dŵr Poeth Heb Dyllau Aer (UHWS) | £476.88 |
| ERS – Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Gosodiadau Dŵr) | £476.88 |
| GQA - Dyfarniad Lefel 3 mewn Profi Athreiddedd Aer (Aer yn Colli) mewn Anheddau Presennol gan ddefnyddio'r Dull Pwls Gwasgedd Isel (LPP) | £1,425.06 |
| ISEP (IEMA) - Mesur Ôl Troed Carbon ac Adrodd Arno | £238.44 |
| ISEP (IEMA) – Archwilydd Systemau Rheolwr Amgylcheddol (EMS) Mewnol | £1,430.64 |
| ISEP (IEMA) – Sgiliau Cynaliadwyedd Amgylcheddol ar gyfer y Gweithlu | £238.44 |
| ISEP (IEMA) - Sgiliau Cynaliadwyedd Amgylcheddol ar gyfer Rheolwyr | £476.88 |
| LCL Awards - Systemau a Diogelwch Dŵr Poeth (gan gynnwys Dŵr Poeth Heb Dyllau Aer) | £476.88 |
| LCL Awards – Dyfarniad Lefel 3 mewn Effeithlonrwydd Ynni ar gyfer Systemau Gwresogi a Dŵr Poeth Domestig sy'n Rhedeg ar Nwy ac sy'n Rhedeg ar Olew | £238.44 |
| LCL Awards – Dyfarniad Lefel 3 mewn Gosod a Chynnal a Chadw Systemau Pwmp Gwres o'r Aer (cylchedau heb oerydd) | £953.76 |
| LCL Awards – Dyfarniad Lefel 3 mewn Gosod a Chynnal a Chadw Systemau Pwmp Gwres o'r Ddaear (cylchedau heb oerydd) | £953.76 |
| LCL Awards – Dyfarniad Lefel 3 mewn Gosod a Chynnal a Chadw Systemau Pwmp Gwres (cylchedau heb oerydd) | £953.76 |
| LCL Awards – Dyfarniad Lefel 3 mewn Gosod a Chynnal a Chadw Systemau Dŵr Poeth Thermol Solar | £953.76 |
| NEBOSH – Tystysgrif Rheoli Amgylcheddol | £1,430.64 |
| NICEIC - Systemau Storio Dŵr Poeth Heb Dyllau Aer (UVHW) Domestig | £476.88 |
| NICEIC – Awyru Domestig | £715.32 |
| NICEIC - Effeithlonrwydd Ynni ar gyfer Gwresogi Domestig | £476.88 |
| NICEIC - Dŵr Poeth Thermol Solar | £953.76 |
| NICEIC – Rheoliadau Dŵr | £476.88 |
| NOCN – Dyfarniad Lefel 3 mewn Mesurau Effeithlonrwydd Ynni ar gyfer Adeiladau Hŷn a Thraddodiadol - (2022) | £953.76 |
| NOCN – Dyfarniad Lefel 3 mewn Deall Atgyweirio a Chynnal a Chadw Adeiladau Traddodiadol o'r cyfnod cyn 1919 | £715.32 |
| OFTEC OFT21-504A Gosod, Comisiynu a Thrin Pympiau Gwres o'r Aer | £953.76 |
| OFTEC OFT21-504D Dylunio Systemau Pwmp Gwres | £476.88 |
| OFTEC OFT21-504G Gosod, Comisiynu a Thrin Pympiau Gwres o'r Ddaear | £476.88 |
| TQUK - Dyfarniad i Beilotiaid Dronau Masnachol | £1,425.06 |

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**